Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

8 Gorffennaf 2019

**Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau**

Annwyl Andrew,

Diolch unwaith eto ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 24Mehefin 2019. Roedd nifer o faterion yn codi o'r cyfarfod yr oedd y Pwyllgor yn dymuno gofyn am ragor o fanylion yn eu cylch:

- Yn ogystal â'r Prif Weithredwr, a oes gan unrhyw Uwch Weithredwyr eraill ym Manc Datblygu Cymru swyddi cyfarwyddwyr cyflogedig eraill, ac os felly, pa broses a ddilynwyd wrth ofyn am ganiatâd ar gyfer y swyddi cyfarwyddwyr hyn. Os yw'n briodol, a wnewch chi roi manylion o enghreifftiau penodol;

- Gan nad yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol bellach yn cyhoeddi dadansoddiad is-genedlaethol o ffigurau diswyddo misol, gofynnir am gadarnhad a yw Llywodraeth Cymru yn cadw cofnod o lefelau diswyddo (nid diweithdra, sy'n set ddata ar wahân) yng Nghymru ac a yw lefelau wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf;

- Cadarnhad pryd oedd y tro diwethaf i Lywodraeth Cymru, ar lefel weinidogol, ymgysylltu â thîm rheoli byd-eang cwmni modur Ford yn yr Unol Daleithiau cyn y cyhoeddiad i gau'r ffatri ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 6 Mehefin 2019;

- Swm, math a phwrpas y cymorth ariannol a roddir gan Lywodraeth Cymru (boed hynny'n uniongyrchol neu drwy Cyllid Cymru neu'r Banc Datblygu), yr

oedd unrhyw un o'r cwmnïau a enwyd yn ystod y sesiwn (yng Nghofnod y Trafodion 289-291) wedi ei dderbyn cyn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a chadarnhad o unrhyw ddyledion sydd heb eu talu (GM Jones, grŵp Cuddy, Jistcourt, Cwmni Bwyd GRH).

- Dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r trefniadau strwythurol ar gyfer Grŵp Dawnus gan gynnwys a yw'r cwmni yn ei gyfanrwydd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ynteu a yw'n parhau i weithredu ei gwmnïau rhyngwladol, cwmnïau eraill sy'n gysylltiedig â Dawnus neu gwmnïau sydd wedi ail-ymddangos. At hynny, eglurhad pam yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol symud arian benthyca ymlaen i gwmni â gweithrediadau tramor, sydd o fewn grŵp mawr o gwmnïau, os nad yw'r anawsterau ariannol wedi effeithio ar bob rhan o'r gweithrediad hwnnw.

- Unrhyw ddeialog a gafwyd rhwng adrannau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyfywedd Dawnus yng nghyd-destun ei gyfraniad at brosiectau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yng nghyd-destun prosiectau ym Mhowys.

Ar fater cysylltiedig, rydym wedi cael gwybod am adroddiadau diweddar yn y wasg genedlaethol ynglŷn â phryderon am wrthdaro buddiannau honedig mewn perthynas â Chronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru. Hoffem gael eglurhad ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau o'r fath a rhyw syniad o sut y nodwyd ac y rheolwyd unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig yng nghyd-destun argymhellion blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad yn 2016 ar drefniadau sefydlu a goruchwylio Llywodraeth Cymru o'r Gronfa.

Rydym hefyd yn gofyn am eglurhad o rôl Banc Datblygu Cymru o ran cynnal neu reoli Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru ac yn gofyn i chi ofyn i Fanc Datblygu Cymru roi mewnbwn i'ch ymateb fel y bo'n briodol.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC, Cadeirydd**